# Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf, 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd John Griffith (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Alun Mummery, Nicola Roberts, Peter Rogers, Dafydd Rhys Thomas<br><br>Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM) (ar gyfer eitem 7)<br>Pennaeth Archwilio Mewnol (MH)<br>Rheolwr Archwilio (SP)<br>Rheolwr Gwasanaeth a Rheoli Pherfformiad TGCh (LE) (ar gyfer eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Jim Evans, Richard Owain Jones, H. Eifion Jones (Deilydd Portffolio Cyllid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Gwilym Bury (Swyddfa Archwilio Cymru) |

---

### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 27 MEHEFIN, 2016

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Mater yn codi -

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 wrth y Pwyllgor bod yr archwiliad o gyfrifon 2015/16 yn mynd rhagddo ac er gwaethaf peth llithriad yn yr amserlen wreiddiol, mae'r Gwasanaeth Cyllid yn dwyn ynghyd y wybodaeth y mae’r archwilwyr allanol ei hangen a rhagwelir y byddant mewn sefyllfa i adrodd ar ganlyniad yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar gyfer 2015/16 i'r Pwyllgor ym mis Medi fel sy’n ofynnol.

DRAFT

## 3. DIWEDDARIAD AR Y TREFNIADAU ADFER AR ÔL TRYCHINEB TGCH

Cafwyd diweddariad llafar gan y Rheolwr Gwasanaeth a Rheoli Pherfformiad TGCh ar y cynnydd a wnaed ynghylch gweithredu argymhellion yr adain archwilio mewnol yn dilyn yr archwiliad a wnaed yn 2015/16 o drefniadau Adfer ar ôl Trychineb TGCh a ddarganfu diffygion yn y trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn y maes hwn.

Dywedodd y Swyddog bod y Gwasanaeth TGCh yn awr bron â gorffen dylunio canolfan cefnogi data bwrpasol. Cynigir cael ail ganolfan ddata i ffwrdd o'r ystafelloedd TGCh ym mhrif swyddfeydd y Cyngor a fydd bob amser yn weithredol, ynghyd â'r brif ganolfan. Gyda'i gilydd, byddant yn rhannu'r pŵer prosesu o redeg systemau allweddol y Cyngor. Os digwydd na fydd modd defnyddio prif swyddfeydd y Cyngor, bydd yr ail ganolfan ddata yn gallu rhedeg gwasanaethau allweddol, sef y gwasanaethau hynny a nodwyd fel rhai hollbwysig e.e gofal cymdeithasol a chyllid. Erys rhywfaint o waith i'w wneud o ran cadarnhau bod y rhestr o wasanaethau allweddol yn gyfoes ac un elfen sydd angen sylw o ran dyluniad yw gallu'r adeilad i wrthsefyll tân a fyddai'n penderfynu am ba hyd y gall y ganolfan ddata oroesi mewn tân. Bydd gan y ganolfan ddata bŵer cydnerth drwy UPS a generadur ar y safle. Mae cyllid cyfalaf ar gyfer y cyfleuster newydd ac mae'r Gwasanaeth TGCh yn hyderus y bydd y prosiect yn cael ei gyflawni o fewn y gyllideb ac erbyn y dyddiad cwblhau a gynlluniwyd, sef Rhagfyr, 2016. Yn ogystal â bod yn gyfleuster wrth gefn, mae hwn yn ddatrysiad o ansawdd a fwriadwyd i gwrdd ag anghenion newidiol y Cyngor, gan ganiatáu iddo ddefnyddio'r pŵer prosesu fel a phan y bydd y busnes ei angen.

O'r wybodaeth a gyflwynwyd cymerodd y Pwyllgor sicrwydd bod cynnydd boddhaol wedi'i wneud o ran ymateb yn briodol i'r materion a nodwyd yn yr adroddiad archwilio mewnol a luniwyd yn 2015/16 o ran cryfhau'r rheolaethau mewn perthynas â threfniadau Adfer ar ôl Trychineb fel bod modd rheoli'r risgiau yn y maes hwn yn effeithiol. Nododd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol iddo gael gweld y cynllun ar gyfer adfer ar ôl trychineb yn y man. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth a Rheoli Perfformiad TGCh fod y Cynllun Adfer ar ôl Trychineb h.y y gallu i ymateb i drychineb wedi'i gyfyngu gan yr isadeiledd presennol ond y gellid rhoi i'r Pwyllgor ddyluniad o sut y byddai'r system yn gweithredu os digwydd trychineb. Unwaith yr isadeiledd newydd wedi ei sefydlu byddai'r dyluniad hwnnw'n cael ei gynnwys yn y Cynllun Adfer ar ôl Trychineb a byddai modd cyflwyno cynllun i'r Pwyllgor hwn. Cadarnhaodd y Swyddog y bwriedir rhoi prawf ar y system cyn iddi fynd yn fyw, a hynny yn unol â gofynion arfer gorau er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n iawn a bod modd adfer data mewn ffordd brydlon a dibynadwy os digwydd trychineb.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r diweddariad mewn perthynas â chynnydd a wnaed gyda chynlluniau Adfer ar ôl Trychineb TGCh.**

**CAM GWEITHREDU: Bod y Pwyllgor yn cael crynodeb ysgrifenedig o sut y byddai'r system wrth gefn yn gweithio os digwydd trychineb.**

## 4 ADRODDIAD CYNNYDD GAN Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL - CHWARTER 1 2016/17

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill, 2016 hyd at 30 Mehefin, 2016 yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU a Safonau CIPFA yn y DU lle mae gofyn i'r Pennaeth Archwilio Mewnol adrodd o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgor ar berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o gymharu â'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2016/17.

Adroddodd y Rheolwr Archwilio Mewnol ar yr agweddau canlynol ar berfformiad y Gwasanaeth :

- Bod 6 o brosiectau archwilio sy'n amrywio o ran cymhlethdod yn 2015/16 nad oeddent wedi'u cwblhau na'u cyhoeddi erbyn 31 Mawrth, 2016 ac maent yn disgyn i'r categori gwaith sy'n mynd rhagddo fel y rhestrir ym mharagraff 3.1.1 yr adroddiad.

DRAFT

- Mae rhestr o dargedau perfformiad ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Mehefin, 2015 wedi ei chynnwys yn Atodiad A i'r adroddiad ac mae'n dangos bod 24.19% o archwiliadau a gynlluniwyd wedi'u cwblhau ar hyn o bryd yn erbyn targed blynyddol o 80%.
- Mae rhestr o'r holl aseiniadau archwilio a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hyd yma gan gynnwys gwaith ar y gweill ar gyfer 2015/16 i'w gweld yn Atodiad C i'r adroddiad, ac mae'n crynhoi'r farn a'r argymhellion archwilio mewn perthynas â phob maes a adolygwyd. Ers 1 Ebrill, 2016, cyhoeddwyd dau adroddiad terfynol o Gynllun Gweithredu 'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2015/16 a chwech o Gynllun 2016/17.
- Mae dau o'r archwiliadau cynlluniedig a gwblhawyd yn ystod y chwarter cyntaf wedi cael eu hasesu fel rhai nad ydynt yn darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd. Aseswyd System Rheolaethau Allweddol Budd-daliadau Tai a'r Gyfundrefn Rheoliadau Adeiladu – Ffioedd Arolygu a Gorfodi fel rhai a oedd yn darparu lefel gyfyngedig o sicrwydd.
- Mae argymhellion Archwilio Mewnol yn cael eu graddio fel Uchel, Canolig neu Isel, a hynny yn ôl y risg fel y diffinnir hi yn Atodiad B i'r adroddiad. Y gyfradd gweithredu fel yr oedd ar 30 Mehefin, 2016 oedd bod 72% o'r argymhellion lefel Uchel a Chanolig wedi eu cofnodi fel rhai a weithredwyd.
- Mae rhestr o'r 3 archwiliad dilynol a gynhaliwyd yn ystod y chwarter cyntaf wedi ei chynnwys yn Atodiad E i'r adroddiad ac mae'n dangos nifer yr argymhellion a dderbyniwyd ac a weithredwyd gan Reolwyr ynghyd â'r farn archwilio ddiwygiedig.
- Mae'r ymchwiliadau arbennig a gynhaliwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod yn gyfanswm o 37.70 o ddiwrnodau ac fe'u hamlinellir yn Atodiad F.
- Mae dadansoddiad o berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2016/17 yn dangos bod lefelau perfformiad ar hyn o bryd ar darged.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd a nododd y canlynol:

- Nododd y Pwyllgor fod yr archwiliadau mewn perthynas â dau faes (Budd-dal Tai a Ffioedd Adeiladu - Cyfundrefnau Arolygu a Gorfodi) wedi dod o hyd i wendidau yn y rheolaethau allweddol yn y meysydd hynny sy'n golygu na ellir ystyried bod y trefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg yn y meysydd hyn yn ddibynadwy. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r camau sy'n cael eu cymryd i unioni'r sefyllfa ac yn achos yr olaf; nododd y Pwyllgor fod y diffygion yn mynd i wraidd y gwasanaeth. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod y system Budd-dal Tai yn system gymhleth sy'n rheoli swmp o wybodaeth ac felly ni ellir rhoi sicrwydd llwyr y gall hi bob amser fod yn 100% cywir. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i gaffael system electronig i sganio dogfennau papur a gohebiaeth a neilltuo tasgau i aelodau'r Tîm. O'r 12 archwiliad a gyhoeddwyd, cafodd 10 eu derbyn gan Reolwyr ac o'r rheini mae 7 wedi cael eu rhoi ar waith a bydd y 3 sy'n weddill yn cael eu gweithredu erbyn mis Medi. Gyda golwg ar Ffioedd Adeiladu a'r Cyfundrefn Arolygu a Gorfodi, mae'r Pennaeth Gwasanaeth newydd ar gyfer Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn adolygu prosesau gweinyddol y Gwasanaeth. Nododd y Pwyllgor y byddai'n beth ddoeth iddo gadw llygad ar y ddau faes er mwyn sicrhau bod yr argymhellion archwilio yn cael eu rhoi ar waith.
- Nododd y Pwyllgor, mewn perthynas â meysydd gwasanaeth penodol fel y nodir yn Atodiad D, y bu llithriad dros nifer o flynyddoedd ar y dyddiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer gweithredu argymhellion archwilio ac mewn rhai achosion, ni chafwyd unrhyw sylwebaeth gan reolwyr i esbonio'r oedi, neu i roi sicrwydd bod y mater yn cael sylw ac y bydd wedi'i gwblhau erbyn dyddiad penodol. Ceisiodd y Pwyllgor eglurhad a oedd hyn o ganlyniad i wasanaethau'n gorfod dal i fyny gydag argymhellion nad oeddent wedi eu gweithredu a holwyd a oes gweithdrefn ar gyfer cysylltu â Rheolwyr mewn achosion lle nad oes cynnydd amlwg wedi cael ei wneud o fewn yr amserlen a bennwyd. Mewn achosion lle'r oedd Rheolwyr wedi cynnig sylwebaeth, nododd y Pwyllgor hefyd y gall y sylwebaeth honno fod yn amwys neu heb amserlen bendant ar gyfer gweithredu, sy'n golygu nad yw'n ddefnyddiol o ran gallu'r Pwyllgor i gadw llygad ar gynnydd a / neu sefydlu a oes unrhyw faterion sy'n atal argymhellion rhag cael eu rhoi ar waith. Hysbyswyd y Pwyllgor bod y gyfradd weithredu ar gyfer argymhellion Uchel a Chanolig bellach wedi codi i 72%. Nid yw'r system a ddefnyddir i gofnodi pa argymhellion a weithredwyd yn arbennig o hawdd i'w defnyddio ac efallai na fydd yr argymhellion sydd wedi eu rhoi ar waith bob amser yn dangos ar y

DRAFT

system.  Mewn achosion lle mae'r archwiliad dilynol yn dangos nad yw argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith, gall y Pwyllgor alw'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol i gyfrif. Ar ben hynny, mae achos dros addysgu staff yn well am y broses adrodd fel eu bod yn eglurach yn yr hyn maent yn adrodd arno, yn gwybod i bwy y dylid cyflwyno gwybodaeth ac yn ymwybodol o'r pwys a roddir ar y wybodaeth honno.

- Nododd y Pwyllgor o ganlyniad bod angen i'r holl Reolwyr fod yn ymwybodol bod y weithdrefn ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor Archwilio yn bwysig a bod angen iddi fod yn effeithiol o ran cyfathrebu pa gynnydd a wnaed gan y gwasanaethau i weithredu ar argymhellion archwilio. Nododd hefyd bod angen i staff ddeall ei bod hefyd yn broses gyhoeddus sy'n golygu y gall adroddiadau anghywir fod yn gamarweiniol. Hysbyswyd y Pwyllgor bod yr UDA yn cael gwybod am argymhellion archwilio bob chwarter; mae angen i'r neges ynghylch pwysigrwydd darparu diweddariadau priodol i roi darlun cywir raeadru i lawr o'r UDA i lefel Penaethiaid Gwasanaeth ac o hynny i reolwyr a staff.
- Nododd y Pwyllgor mewn perthynas ag archwiliadau ysgol bod y rhai a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn wedi arwain at farn archwilio Rhesymol neu Sylweddol ac fe gymerodd sicrwydd o'r gwelliant yr oedd hyn yn ei dystiolaethau, gan gydnabod hefyd bod rhai materion sy'n parhau i fod angen sylw mewn perthynas â threfniadau llywodraethu ysgolion fel y dangosir gan Atodiad D. Awgrymodd y Pwyllgor y byddai'n werth atgoffa'r Gyfadran Dysgu Gydol Oes o bwysigrwydd ysgolion yn cadw cofnodion cywir a diweddar a chydymffurfio â phrosesau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. *(Roedd y Cynghorydd John Griffith yn dymuno nodi yn y cyd-destun hwn ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Llannerch-y-medd acYsgol Bodedern a chyfeiriodd y Cynghorydd Peter Rogers at ei swydd fel llywodraethwr ysgol hefyd.)*
- Nododd y Pwyllgor bod yr archwiliad dilynol o fân ddyledwyr, fel yr archwiliad gwreiddiol, wedi dyfarnu barn sicrwydd Cyfyngedig a gofynnodd am eglurhad ynghylch pam nad oed pethau wedi gwella. Hysbyswyd y Pwyllgor bod argymhellion yr archwiliad gwreiddiol yn y broses o gael eu rhoi ar waith a bod y gwasanaeth wedi colli staff dros gyfnod o amser a oedd yn golygu nad oedd ganddo'r adnoddau i allu cyflawni rhai elfennau o'r gwaith. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Refeniw a Budd-daliadau yn cael ei adolygu a'i ailstrwythuro ac unwaith y bydd hynny wedi ei gwblhau edrychir ar brosesau a gweithdrefnau'r gwasanaeth a bydd tasgau yn cael eu hailneilltuo o fewn y tîm a thrwy hynny fe ryddheir adnoddau i ymgymryd yn rheolaidd ag agweddau ar y gwaith nad ydynt yn cael eu gwneud yn rheolaidd ar hyn o bryd.
- 'Roedd y Pwyllgor yn fodlon o'r wybodaeth a gyflwynwyd a'r diweddariadau llafar fod y rheolaethau mewnol a'r prosesau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol a sefydlwyd i reoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod yn gweithio'n foddhaol, a lle nodwyd gwendidau, bod camau cywiro'n cael eu cymryd neu wedi eu cynllunio.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**CAM GWEITHREDU: Bod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn codi gyda'r UDA pa mor bwysig yw bod Rheolwyr yn cyfathrebu'n effeithiol ac amserol i ddarparu darlun clir a chywir o sefyllfa gwasanaethau o ran gweithredu argymhellion archwilio.**

## 5. PRYDERON, CWYNION A CHWYTHU'R CHWIBAN

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Swyddog Monitro a oedd yn rhoi amlinelliad o'r materion sy'n codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor am y cyfnod 1 Ebrill, 2015 i 31 Mawrth 2016. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb lefel uchel o faterion chwythu'r chwiban y rhoddwyd gwybod amdanynt yn ystod yr un cyfnod, yn ogystal â chwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol lle nad yw'r achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth.

*(Datganodd y Cynghorydd Peter Rogers ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu yn y mater hwn ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r penderfyniad yn ei gylch. Hysbysodd Mrs Sharon Warnes y Pwyllgor ei bod yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus)*

Amlygodd y Swyddog Monitro yr ystyriaethau canlynol:

DRAFT

- Yn ystod y cyfnod dan sylw, cofnodwyd 261 o bryderon a derbyniwyd 59 o gwynion ffurfiol.
- Mae nifer y cwynion a dderbyniwyd wedi gostwng i 59 o 65 yn 2014/15 ac o 66 yn 2013/14. Y nifer uchaf o gwynion a gofnodwyd ers casglu'r ystadegau oedd yn 2011/12 pan gofnodwyd 89 o gwynion o dan y Polisi.
- Yr ymateb cyffredinol i gwynion a gyhoeddwyd o fewn y terfyn amser penodedig (20 diwrnod gwaith) yw 70%.
- O'r 59 o gwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod, cafodd 10 eu cadarnhau yn llawn, 6 eu cadarnhau'n rhannol ac ni chafodd 43 eu cadarnhau o gwbl. Cyfeiriwyd 5 cwyn at yr Ombwdsmon ond ni dderbyniodd yr un ohonynt ar gyfer ymchwiliad. Mae dadansoddiad o'r pryderon a'r cwynion fesul gwasanaeth ym mharagraff 8.
- Mae'r Cyngor hefyd yn cofnodi canmoliaethau a dderbyniwyd a chofnodwyd 561 yn ystod y cyfnod perthnasol. Yn ogystal, derbyniwyd 2,059 o sylwadau cadarnhaol yn yr Oriel a 513 ym Mharc Gwledig y Morglawdd. Mae dadansoddiad o'r ganmoliaeth yn ôl gwasanaeth ym mharagraff 9.
- Mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn rhoi pwyslais ar ddysgu gwersi o gwynion a thrwy hynny wella gwasanaethau. Mae'r materion a nodir ym mharagraff 10 o'r adroddiad yn cael eu nodi fel gwersi a ddysgwyd, ond nid oedd angen rhoi cynlluniau gweithredu ffurfiol ar waith ar eu cyfer.
- Yn ystod 2015/16, cyflwynwyd 5 o gwynion i'r Ombwdsmon ac roedd y cyfan ohonynt yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Ar ôl edrych ar y cwynion ac ymatebion y Cyngor, penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ag ymchwilio i'r cwynion.
- Ceir crynodeb o'r cwynion yn erbyn Aelodau Etholedig ym mharagraff 12 yr adroddiad.
- Derbyniwyd un gŵyn yn ymwneud ag iaith yn ystod y flwyddyn ac fe'i cofnodwyd yn y dadansoddiad o'r cwynion o dan y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a hefyd ym mharagraff 10 o dan y 'gwersi a ddysgwyd.'
- Mae crynodeb o gwynion chwythu'r chwiban y cafwyd gwybod amdanynt gan wasanaethau yn 2015/16 ym mharagraff 12 yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a nododd y materion canlynol:

- Nododd y Pwyllgor fod y 261 o bryderon a'r 59 o gwynion a dderbyniwyd wedi arwain at nodi dim ond tair gwers i'w dysgu ac awgrymwyd y dylai cymaint â hynny o atborth fod wedi esgor ar fwy o gyfleoedd dysgu ar gyfer yr Awdurdod, ac y dylai'r Awdurdod fod yn ceisio gweld ei hun fel awdurdod sy'n dysgu. Hysbyswyd y Pwyllgor bod 207 o'r pryderon wedi'u cofrestru gan y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff ac roedd y rhain yn ymwneud â'r un mater, sef newid ym mholisi codi tâl y Cyngor ar gyfer casglu gwastraff swmpus. Mabwysiadwyd a gweithredwyd y newid heb adolygu'r prosesau gwaith ategol, gan gynnwys y gwasanaeth ffôn, ac arweiniodd hynny at nifer fawr o ymholiadau gan y cyhoedd na allai'r gwasanaeth ymdopi â nhw ac oedi o ran ateb galwadau a phrosesu taliadau. Mae'r Tîm Trawsnewid Corfforaethol wedi gweithio gyda'r gwasanaeth i fynd i'r afael â'r systemau a'r prosesau. Cofnodwyd 13 o bryderon ar gyfer y chwarter dilynol mewn perthynas â'r un gwasanaeth ac roedd 5 ohonynt am y system ffôn - sy'n welliant sylweddol ac sy'n dangos bod y mater yn cael sylw a bod gwers wedi eu dysgu, sef bod angen adolygu prosesau ategol pan fo polisi'n cael ei newid. Yn fwy cyffredinol, mae gwaith yn mynd rhagddo ar wella'r rhyngwyneb rhwng systemau a'r gwasanaeth i gwsmeriaid drwy symud fwyfwy tuag at brosesau digideiddio ynghyd â gwaith i gyflwyno, hwyluso a hyrwyddo dulliau talu eraill. Mae'r argymhellion hefyd yn cydnabod bod y maes 'gwersi a ddysgwyd' yn y dylid ei ddatblygu.
- Gofynnodd y Pwyllgor pa wybodaeth oedd ar gael i bwrpas cymharu gydag awdurdodau eraill fel y gall gael gwell syniad o sut mae'r Cyngor yn cymharu gyda nhw. Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at nifer y cwynion a dderbyniwyd yn yr un cyfnod gan ddau awdurdod arall yng Ngogledd Cymru yr ystyrir eu bod yn perfformio'n dda a dywedodd bod yr awdurdodau hynny wedi cael mwy o gwynion na'r Cyngor hwn.
- Nododd a chroesawodd y Pwyllgor y wybodaeth mewn perthynas â chwythu'r chwiban fel tystiolaeth bod staff yn ymwybodol o'r polisi a'u bod yn ddigon hyderus, pan fyddant yn troi at y polisi, y bydd eu llais yn cael ei glywed ac y bydd eu pryderon yn cael sylw.

- Nododd y Pwyllgor fod nifer y cwynion yn gostwng a bod yr Awdurdod wedi derbyn nifer o ganmoliaethau, a'i fod yn fodlon bod y diweddariad a roddwyd yn dangos bod gwersi wedi'u dysgu o'r cwynion a'r pryderon a dderbyniwyd. Er hynny, nododd y Pwyllgor y gall nifer isel o gwynion hefyd fod yn arwydd o lefel isel o wybodaeth am y drefn gwyno a / neu ddisgwyliadau isel y bydd pryderon yn cael sylw er ei fod yn fodlon nad dyna oed yr achos yn Ynys Môn.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor yn -**

- **Derbyn yr adroddiad fel un sy'n darparu sicrwydd rhesymol bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i Bolisi Cwynion a Chanmoliaeth a'r Polisi Chwythu'r Chwiban.**
- **Cytuno bod Swyddogion yn ymgymryd â gwaith pellach gyda golwg ar sicrhau y bydd y broses yn cynnwys mwy o bwyslais ar y canlynol:**

    - **nodi gwersi a ddysgwyd, a'r newidiadau sy'n codi ohonynt, a bod y gwasanaethau yn eu rhoi ar waith.**
    - **dadansoddi'r data corfforaethol cyffredinol a gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth;**
    - **asesu a oes rôl gyfochrog ac ategol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried unrhyw batrymau sy'n dod i'r amlwg.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH**

**6. ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2015/16**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor ac ar gyfer sylwadau, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 a oedd yn ymgorffori'r Adolygiad Rheoli'r Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2015/16. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys yn 2015/16 ac yn cadarnhau y cydymffurfiwyd â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd eisoes gan yr Aelodau.

Ymhelaethodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ar yr elfennau canlynol o'r adolygiad Rheoli'r Trysorlys:

- Gweithgaredd Cyfalaf. Amlinellir gwir wariant cyfalaf y Cyngor a sut mae wedi ariannu yn nhabl 2.2 yr adroddiad ac mae'n un o'r dangosyddion darbodus.
- Effaith y gweithgaredd hwn ar ddyled sylfaenol y Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf). Mae GCC y Cyngor ar gyfer y flwyddyn yn nhabl 3.3.4 ac mae'n ddangosydd darbodus allweddol.
- Sefyllfa gyffredinol y Trysorlys yn nodi sut mae'r Cyngor wedi benthyca mewn perthynas â'i ddyledion a'r effaith ar falansau buddsoddi. Yn wyneb y cyfraddau llog cyfredol a'r cyfraddau a ragwelir, ynghyd â risgiau credyd gwrthbartïon, y dylid parhau i fewnoli benthyca, o leiaf yn y tymor byr, sydd yn y strategaeth a roddwyd ar waith ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. Mae'r sefyllfa fenthyca gros wedi cynyddu yn ystod 2015/16 oherwydd y benthyciad gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus i brynu allan o'r system gymhorthdal ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai sy'n disodli'r hen gymorthdaliadau i Lywodraeth Cymru.
- Y ffigyrau benthyca a buddsoddi ar gyfer y Cyngor fel yr oeddent ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16. Dangosir y rhain ym mharagraff 4.1 yr adroddiad ac yn fanylach yn Atodiad 1. Ni chafodd unrhyw ddyledion eu had-drefnu yn ystod y flwyddyn oherwydd bod y gwahaniaeth o 1% rhwng cyfraddau benthyca newydd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a chyfraddau ad-dalu cynamserol yn golygu nad yw'n werth ad-drefnu dyledion.
- Gweithgarwch buddsoddi. Mabwysiadwyd ymagwedd ofalus yn sgil yr ansicrwydd parhaus yn dilyn yr argyfwng ariannol yn 2008 lle byddai buddsoddiadau'n parhau i gael eu dominyddu gan ystyriaethau risg gwrthbartïon isel sy'n golygu dychweliadau cymharol isel o gymharu â chyfraddau benthyca. Yn y sefyllfa hon, y strategaeth trysorlys oedd gohirio benthyca er mwyn osgoi cost cadw lefelau uwch o fuddsoddiadau a lleihau risg gwrthbarti. Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach er y cedwir y gallu i fuddsoddi am gyfnodau hwy.

DRAFT

- Diogelwch Buddsoddiadau ac Ansawdd Credyd. Nid chafodd unrhyw sefydliadau yr oedd y Cyngor wedi buddsoddiad ynddynt anhawster i ad-dalu buddsoddiadau a llog ar amser ac yn llawn yn ystod y flwyddyn. Arweiniodd canlyniad Refferendwm y DU at israddio'r rhagolygon tymor hir ar gyfer banciau'r DU o ragolwg sefydlog i ragolwg negyddol. Fodd bynnag mae eu graddfeydd tymor byr a chanolig yn dal i fod o fewn y graddfeydd priodol a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli Trysorlys 2015/16. Mae statws y banciau ac adneuon y Cyngor yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau y gellir gostwng y risgiau i'r Cyngor cymaint â phosib.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r dangosyddion darbodus a thrysorlys allweddol yn 2015/16.
- Nododd y Pwyllgor y benthycwyd i bwrpas cyfalaf yn unig ac nad aethpwyd dros y terfyn benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig). .
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar effaith trefniadau benthyca'r Cyngor ar y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a faint o gyfraniad y Cyngor i'r rhaglen fyddai'n seiliedig ar dderbyniadau cyfalaf a faint fyddai'n seiliedig ar fenthyca. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai'r Cyngor yn benthyca mwy yn y tymor byr hyd nes y ceir derbyniadau cyfalaf i wneud iawn am y diffyg. Mae Ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys y Cyngor, Capita, wedi cael cais i adolygu gofynion benthyca'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf er mwyn cymryd Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain i ystyriaeth a bydd canlyniad yr adolygiad yn sail ar gyfer strategaeth fenthyca'r Cyngor dros y tymor hir.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar effaith Brexit ar gyfraddau llog ac a ydynt yn fwy tebygol o godi o ganlyniad. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y gallai'r ansicrwydd sy'n bodoli mewn perthynas â nifer o ffactorau allweddol yrru cyfraddau llog i fyny neu i lawr, ond y byddai cynnydd o gwmpas 2% neu 3% yn rhoi pwysau ar y gyllideb refeniw. Os bydd arwyddion y gallai cyfraddau llog godi yna fe adolygir sefyllfa fenthyca'r Cyngor ac ystyrir ad-dalu rhai benthyciadau a benthyca'n gynt i fanteisio ar y cyfraddau llog isel. Fodd bynnag, mae'r amseru yn hollbwysig ac mae'r Awdurdod yn cael cyngor gan Capita a'i ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys ynghylch yr amser gorau posib i fenthyg; nid ystyrir bod y Cyngor wedi cyrraedd y pwynt hwnnw ar hyn o bryd. Er bod bwlch sylweddol rhwng lefel fenthyca'r Cyngor a'r terfyn awdurdodedig mae unrhyw fenthyciadau ychwanegol yn bwydo drwodd i'r costau ariannu cyfalaf sy'n cael sgil-effaith ar y gyllideb refeniw.
- Nododd y Pwyllgor wedi hynny bod angen i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'r effaith ar y gyllideb refeniw os ymrwymir i fenthyca mwy.

**Penderfynwyd:**

- **Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad yn parhau i fod yn amodol hyd nes y cwblheir ac y llofnodir yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2015/6; adroddir ar unrhyw addasiadau sylweddol canlyniadol i'r ffigyrau a gynhwysir yn yr adroddiad fel y bo'n briodol.**
- **Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys amodol ar gyfer 2015/16 o fewn yr adroddiad.**
- **Derbyn a nodi'r adroddiad ar yr Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2015/16 a'i i anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb sylwadau pellach.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH**

## 7. ARCHWILIAD ALLANOL - ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL YNYS MÔN 2015/16

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2015/16 mewn perthynas â Chyngor Sir Ynys Môn. 'Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn y Cyngor ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf ym mis Rhagfyr 2015 ac 'roedd yn cynnwys crynodeb o gasgliadau adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol eraill sef AGGCC; Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg.

DRAFT

Gan gymryd i ystyriaeth y gwaith a wnaed yn y Cyngor gan y cyrff adolygu allanol perthnasol yn 2015/16 cadarnhaodd Mr Gwilym Bury bod yr Archwilydd Cyffredinol yn casglu, ar y cyfan, bod y Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd yn y meysydd blaenoriaeth tra'n ailstrwythuro ei drefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth, a'i fod yn parhau i fod yn hunanymwybodol a'i fod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 a sicrhau gwelliant yn ystod 2016/17. Er nad yw'r Archwilydd Cyfredinol yn gwneud unrhyw argymhellion statudol, mae'r adroddiad yn gwneud cynigion ar gyfer gwelliannau mewn rhai o'r meysydd a adolygwyd.

Adroddodd Mr Gwilym Bury o Swyddfa Archwilio Cymru ar y canfyddiadau manwl mewn perthynas â'r meysydd allweddol a aseswyd mewn perthynas â Pherfformiad, Defnydd o Adnoddau a Llywodraethiant, gan gynnwys gwasanaethau lle gwnaed gwelliannau yn ogystal â meysydd lle mae angen gwella mwy ar berfformiad a / neu drefniadau.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- O ran gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion, nododd y Pwyllgor bod canran y disgyblion sy'n ennill pum gradd A * i A neu gyfwerth yn Ynys Môn wedi gostwng ers 2012 a'i fod yn is na chyfartaledd Cymru yn 2015. Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y dirywiad hwn yn enwedig yng nghyd-destun y fenter Ynys Ynni a'r cyfleoedd cyflogaeth sgil uchel sy'n debygol o gael eu creu a gofynnodd am gadarnhad bod mesurau i wella lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn cael eu gweithredu. Hysbyswyd y Pwyllgor bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi adroddiad ar ansawdd y Gwasanaethau Gwella Ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm Gogledd Cymru (GwE). 'Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n ddefnyddiol iddo ystyried adroddiad ar GwE o gofio'r cyswllt rhyngddo â pherfformiad ysgolion, ynghyd ag unrhyw Gynllun Gweithredu a baratowyd gan y consortiwm mewn ymateb i'r adroddiad, yn ogystal â gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth a gwella a ddarperir gan GwE o bersbectif penodol Ynys Môn.
- Yn ogystal ag asesu ac adolygu perfformiad a goruchwylio'r trefniadau a'r prosesau sy'n sail i berfformiad, nododd y Pwyllgor y dylai fod yn ystyried ehangu ei bersbectif drwy dderbyn gwybodaeth gymharol yn amlach i helpu'r Pwyllgor roi'r perfformiad yn ei gyd-destun.
- Yng nghyd-destun adroddiad Gwerthuso Perfformiad AGGCC ar gyfer 2014/15 a defnydd y Cyngor o adnoddau, gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar y sefyllfa mewn perthynas â gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer oedolion a phlant. Nododd y Pwyllgor, yn wyneb y problemau cyllido cenedlaethol mewn perthynas â darparu gofal cymdeithasol i oedolion a chwestiynau o amgylch hyfywedd ariannol nifer gynyddol o ddarparwyr gofal cymdeithasol i oedolion, y gallai fod yn ddefnyddiol iddo gael gwybod sut mae cynlluniau ariannol y Cyngor yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.*(Datganodd Mr Richard Barker ddiddordeb yn y cyd-destun hwn fel ymddiriedolwr i ddarparwr gofal cymdeithasol).*

**Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2015/16 a nodi ei gynnwys.**

**CAMAU GWEITHREDU:**

- **Rhoi adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar ansawdd y Gwasanaethau Gwella Ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm Gogledd Cymru (Gwe) ynghyd â Chynllun Gweithredu canlyniadol y consortiwm i'r Pwyllgor i'w hystyried.**
- **Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor mewn perthynas â sut y mae defnydd y Cyngor o adnoddau a chynlluniau ariannol yn cymryd i ystyriaeth y materion cyllido cyfredol mewn perthynas â gofal cymdeithasol i oedolion a gwasanaethau plant.**

Cyflwynwyd a nodwyd y Dystysgrif Cydymffurfiaeth ar gyfer Cynllun Gwella 2016/17 Cyngor Sir Ynys Môn yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a'i fod wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

DRAFT

## 8 ARCHWILIO ALLANOL – RHAGLEN ARCHWILIO GWAITH PERFFORMIAD

Cafwyd diweddariad gan Mr Gwilym Bury, Swyddog Archwilio Cymru, ar statws Rhaglen Gwaith Perfformiad SAC a oedd yn cynnwys astudiaethau gwerth am arian, astudiaethau llywodraeth leol a gwaith perfformiad lleol o ran adroddiadau a gyhoeddwyd, adroddiadau a gynlluniwyd ac adroddiadau sydd ar y gweill. **Nodwyd y wybodaeth gan y Pwyllgor.**

**Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones**
**Cadeirydd**



DRAFFT